

# Gwledd y Llwyni

Duncan Brown



**"Peidiwch â chyffwrdd mwyar duon ar ôl dydd Calan Gaeaf" meddai'r hen air. "Ar ôl hynny bydd y diafol wedi pi-pi arnyn nhw!" Eleni, yn dilyn y cnwd gorau o fwyar a welais erioed, bydd perygl ini gael ein temtio i wneud hynny. Ond nid ar ein cyfer ni, wrth gwrs, y mae cnydau'r llwyni, ond ar gyfer yr adar sydd yn heidio yma dros y gaeaf. Bargen a gafodd ei tharo oesoedd yn ôl yw'r berthynas sydd rhwng y coed a'r adar. Gwledda yw bwriad yr aderyn, ond gwasgaru hadau yn y modd mwyaf effeithiol posibl yw amcan y goeden.**



Abwyd i'r adar yw cnawd ffrwyth y ddraenen wen a'i thebyg. Ei bwrpas yw eu twyllo i gludo'r hedyn sydd y tu mewn i'r ffrwyth yn eu perfedd ac yna'i fwrw i'r pridd yn rhywle arall.

Mae plisgyn caled, a elwir y *pericarp*, o amgylch hadau llawer o blanhigion i'w hamddiffyn, ond llwydda rhai anifeiliaid, megis llygod gyda dannedd miniog, i gnoi trwy hwn a chyrraedd y cnewyllyn maethlon sydd tu mewn iddo. Yn y goeden gelyn ceir gwenwyn o'r enw *illicin* o amgylch yr hedyn hefyd i'w amddiffyn rhag anifeiliaid, ond mae'r hadau'r rhan fwyaf o blanhigion yn gymharol ddi-amddiffyn.

Mae'r gwifrau trydan y tu allan i'n tŷ ni yn gyrchfan holl ddrudwennod yr ardal, a'r pafin oddi tanynt yn wyn ac yn biws ac yn goch yn ei dro, yn ôl tymor a'r hyn sy'n digwydd bod ar gael i'w fwyta. (Piws y mwyar duon, gyda rhyw fân gymysgedd o oren ffrwythau'r criafol, yw lliw'r pafin ar y funud ganol mis Medi). Ond buan y daw hynny i ben gan mai ffrwythau byr eu parhad yw'r rhain, yn wahanol i rai hirhoedlog y gelynnen.

Coeden fythwyrdd wrth gwrs yw'r gelynnen, ac oherwydd hynny mae'n gallu cynhyrchu aeron am gyfnod hwy na'r rhelyw o goed eraill. Am yr un rheswm mae'r eiddew hithau yn gallu cynhyrchu aeron ym mis Ionawr, pan fydd yr holl ffrwythau eraill yn eithriadol o brin.

Oherwydd parhad yr aeron hyn, mae'n talu weithiau i adar cryf ymosodol fel y gaseg-ddrycin amddiffyn llwyni o'r fath rhag adar eraill, a defnyddio'r aeron fesul tipyn drwy'r hirlwm.

Mae'r ysguthan yn un arw am ffrwythau'r eiddew hefyd, a throeon yn ystod y Mis Bach gwelais griw ohonynt yn palfalu yng nghanol y tociau eiddew sydd ar hyd crib wal Stad y Faenol, ger Bangor. Ar ôl llenwi eu boliau, hedfan o flaen car a chael eu sgubo i'r gwter oedd hanes sawl un. A chyda llaw mae'r ysguthan yn wahanol i adar eraill, ac yn debycach i'r llygod y sonais amdanynt o'r blaen, oherwydd gall falu a stwmsio hadau'r eiddew yn ei stumog gref. Nid gwasgarwr hadau yw hon felly, ond rheibiwr nad oes goeso iddi yn y clawdd.

Ceir trefnu goruchfiaeth ymhlith adar y llwyni, gyda'r gaseg-ddrycin ar ben domen, yna ar ei hôl, y socen eira, y fwyalchen a'r fronfraith, ac ar waelod y domen y robin goch, druan bach!

Ond chware teg, mae'r adar mân yn gallu osgoi bygythion y rhai cryfion drwy gymryd eu siâr o ffrwythau o berfeddion y llwyni. (A chyn i chi ysgrifennu i'm cywiro, ydy, mae'r robin goch yn bwyta ffrwythau ar adegau).



**Ond beth bynnag am drefn goruchafiaeth yr adar, ym mha drefn tybed y caiff y ffrwythau eu bwyta?**

Does bosibl bod pob un math o ffrwyth at ddant pob math o aderyn, mwy nag yw pob eitem ar fwydlen mewn Indian - tecawê at eich dant chithau. Fe wnaethoch ddewis cyw iâr findalw efallai oherwydd ei bris, y blas, pa mor llwglyd yr oeddech yn teimlo ar y pryd, ac yng ngoleuni'r dewis o brydau eraill a oedd ar gael.

Dyna union sefyllfa adar y gwrychoedd, ond eu bod hwy hefyd yn gorfod cymryd i ystyriaeth pwy arall sydd yn llygadu'r ffrwythau yn barod.

## AROLWG ADAR A FFRWYTHAU'R GWRYCHOEDD

Dyma ffurflen gofnodi ar gyfer archwilio adar ac aeron clawdd pella'r cae pel droed. Efallai y cewch wybod beth yw hoff fwyd adar eich bro - a phaham.

Dewisiwch ymlaen llaw pa goeden yr ydych am ei hastudio  
Dewisiwch goeden gyda digon o ffrwythau arni.  
Defnyddiwch gopi gwahanol o'r ffurflen ar gyfer pob coeden.  
Mae'n rhaid edrych yn graff i weld beth y mae'r adar yn ei wneud.

Eich enw

Dyddiad y sylwadau

Tywydd

gwynt

cymylau

tymheredd

Amser

Pa ffrwythau sydd ar gael yn y cyffiniau? (graddfa helaethrwydd 1-5)

	1	2	3	4	5
Eirin tagu	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Drain gwynion	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Eiddew	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Criafl	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Mwyar duon	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ysgaw	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Celyn	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Pa fath o goeden a ddewisoch ei gwyllo?

Am ba hyd y buoch yn ei gwyllo?

Pa fath o adar a welsoch yn y goeden?

Nodwch yn fras sawl aderyn a welsoch, a sawl ffrwyth a welsoch yn cael ei fwyta tra oeddech yn gwyllo.